



Rhagfyr 2009

Cynorthwyo pobl i mewn i waith: cam nesaf diwygio Budd-dal Tai

Ymgynghoriad Cyhoeddus

DWP

Adran Gwaith
a Phensiynau

Cynnwys

Crynodeb.....	8
Cynorthwyo pobl i mewn i waith: cam nesaf diwygio Budd-dal Tai.....	10
Ein diwygiadau hyd yma.....	13
Yr achos dros ddiwygio Budd-dal Tai	16
Cynorthwyo pobl i mewn i waith	20
System deg a fforddiadwy	24
Cymunedau cymysg gyda thai safonol.....	29
Tuag at gymorth tai y dyfodol	33
Ein hymrwymiad i wrando.....	36
Cwestiynau'r ymgynghoriad	39

Crynodeb

1. Mae Budd-dal Tai yn helpu 4.5 miliwn o deuluoedd ledled Prydain Fawr i allu fforddio cartref safonol.
2. Yn ogystal â bod yn rhan hanfodol o'r cymorth a roddwn i deuluoedd ar incwm isel, p'un a ydynt mewn gwaith neu allan o waith, mae hefyd yn diogelu rhag digartrefedd, yn cynorthwyo cymunedau cymysg, ac yn helpu i adeiladu cartrefi fforddiadwy ar gyfer y dyfodol drwy sicrhau llif cyson o incwm ar gyfer landlordiaid y sector cymdeithasol.
3. Rydym eisoes wedi helpu awdurdodau lleol i ddiwygio'r broses o weinyddu Budd-dal Tai a lleihau twyll a chamgymeriadau. Yr her sy'n ein hwynebu bellach yw diwygio Budd-dal Tai ymhellach fel y gall helpu pobl i mewn i waith. Rydym am i Fudd-dal Tai hybu annibyniaeth a dyheadau; mae angen iddo fod yn deg, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.
4. Mae'r Lwfans Tai Lleol a gyflwynwyd y llynedd eisoes wedi cyflwyno ffordd decach o gyfrifo Budd-dal Tai i denantiaid sy'n byw mewn llety a gaiff ei rentu'n breifat. Ein hamcan oedd lleihau rhwystrau i weithio drwy roi mwy o gyfrifoldeb i bobl am eu taliadau Budd-dal Tai a rhoi gwasanaeth gwell yn seiliedig ar reolau symlach.
5. Mae'r Lwfans Tai Lleol wedi cyflwyno system fodern, syml sy'n sicrhau bod cyfraddau'r budd-dal ar gael yn glir. Mae hyn yn galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau hyddysg am eu tai ac mae'n golygu nad oes angen cyfeirio unigolion at swyddogion rhent. Gall tenantiaid hefyd wneud cymariaethau rhwng y lefelau o gymorth sydd ar gael tuag at eu costau tai mewn ardaloedd gwahanol ac eiddo o faint gwahanol.
6. Fodd bynnag, erys anawsterau ac ansicrwydd o hyd i'r rheini sy'n symud i mewn i waith. Gall pryder ynghylch p'un a gaiff Budd-dal Tai ei dalu pan fydd pobl yn gweithio, a faint a gaiff ei dalu, olygu na fydd rhai pobl yn hyderus ynghylch symud oddi ar fudd-daliadau. Gall y rhyngweithio cymhleth gyda budd-daliadau eraill ac addasiadau wythnosol mewn taliadau i'r rheini sy'n gweithio oriau amrywiol hefyd leihau'r cymhelliant i weithio, yn enwedig mewn ardaloedd cost uchel.
7. Hefyd, mae'r broses o weithredu'r Lwfans Tai Lleol wedi codi problemau gyda rhenti uchel mewn rhai ardaloedd. Mae'r ffordd y caiff cyfraddau eu pennu wedi golygu bod cwsmeriaid mewn rhai ardaloedd wedi cael mwy o fudd nag eraill. Mewn rhai ardaloedd, gall Budd-dal Tai gynorthwyo cwsmeriaid i fyw mewn llety na all llawer o bobl sydd mewn gwaith ei fforddio. Mae hyn yn ei gwneud yn anoddach i gwsmeriaid roi'r gorau i gael Budd-dal Tai pan fyddant yn symud i mewn i waith. Ymhellach, mae cynnwys rhenti uchel wrth bennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol wedi codi lefelau budd-daliadau ac wedi cyfrannu at y ffaith bod y gyllideb flynyddol ar gyfer Budd-dal Tai wedi codi mwy na'r arfer.

8. Dyna pam bod angen diwygiadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi sut y byddwn yn diwygio Budd-dal Tai i fynd i'r afael â'r ddau fater hyn. Byddwn yn cyflwyno system symlach a thecach o gymorth tai sy'n cefnogi cymhellion i weithio, yn eithrio'r rhenti uchaf sy'n aflunio'r system ac yn talu cyfradd fudd-dal deg i gwsmeriaid ynghyd â diogelu'r trethdalwr. Mae hefyd yn nodi ein dyhead hirdymor i geisio integreiddio Budd-dal Tai yn fwy fel rhan o'r cyfundrefnau treth a budd-daliadau ehangach.
9. Nid yw darpariaeth budd-daliadau mwy integredig yn rhywbeth y gallem ei chyflwyno dros nos. Bydd newid fel hwn yn cymryd amser er mwyn sicrhau na fydd yn arwain at gostau annerbyniol ac na fydd yn anodd ei weithredu. Bydd hefyd angen i ni sicrhau bod y newidiadau a wnawn yn cyd-fynd â pholisïau tai ehangach i adeiladu mwy o dai cymdeithasol a fforddiadwy mewn cymunedau cymysg. Felly mae'r mesurau yn y papur hwn yn cynnwys rhai y byddem yn dymuno eu gweithredu'n gyflym yn ogystal â rhai y byddwn yn eu darparu fel rhan o'n gwaith hirdymor i ddiwygio'r system budd-daliadau.

Cynorthwyo pobl i mewn i waith: cam nesaf diwygio Budd-dal Tai

Beth yw Budd-dal Tai?

- 1.1 Mae Budd-dal Tai yn fudd-dal sy'n seiliedig ar incwm sy'n helpu 4.5 miliwn o deuluoedd ym Mhrydain Fawr gyda chost llety ar rent. Budd-dal annibynnol ydyw, a gaiff ei gynllunio a'i weinyddu ar wahân i fudd-daliadau eraill, ac fe'i telir i bobl sydd ar incwm isel i'w helpu i dalu eu costau rhent.
- 1.2 Fe'i gweinyddir gan awdurdodau lleol, ochr yn ochr â Budd-dal Treth Cyngor, yn unol â chyfres genedlaethol o reolau a rheoliadau.
- 1.3 Mae ar gael i denantiaid sy'n rhentu eu cartrefi yn y sectorau rhentu preifat neu gymdeithasol ond nid yw'n rhoi help gyda chostau morgais neu gostau tai nad ydynt yn gysylltiedig â rhent. Mae ar gael i gwsmeriaid sydd mewn gwaith neu allan o waith; o oedran gweithio neu oedran pensiwn. Mae cymhwyster i gael Budd-dal Tai yn dibynnu ar p'un a yw rhywun yn cael budd-daliadau cymwys penodol, neu gellir ei dalu i bobl sydd â swm cyfyngedig o gynilion, neu sy'n gweithio ond sydd ar incwm isel.
- 1.4 Fel arfer mae cwsmeriaid sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol, sy'n cael budd-daliadau penodol eraill sy'n seiliedig ar incwm, yn cael help sy'n cyfateb i'w holl rent cymwys. Cyfyngir ar hawl cwsmeriaid sy'n byw yn y sector rhentu preifat i gael budd-daliadau i swm yr ystyrir ei fod yn rhesymol ar gyfer yr ardal.
- 1.5 Cyn cyflwyno'r Lwfans Tai Lleol, cyfyngwyd ar uchafswm hawl tenantiaid i gael budd-daliadau gan asesiad unigol o'u llety a gynhaliwyd gan swyddogion rhent. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn defnyddio system symlach, llai biwrocraidd sy'n rhoi mwy o annibyniaeth a dewis i gwsmeriaid. Nid yw cyfyngiadau bellach yn seiliedig ar asesiadau unigol gan swyddogion rhent ond yn hytrach ar renti nodweddiadol ar gyfer yr ardal. Os gall cwsmeriaid ddod o hyd i lety sy'n rhatach na'r gyfradd hon gallant gadw'r gwahaniaeth, hyd at £15 yr wythnos.

Diwygio Budd-dal Tai

- 1.6 Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf mae'r Llywodraeth hon wedi trawsnewid ei dull o weithredu'r system lles, gan wella cymorth i'r rheini sydd ei angen fwyaf, a gofyn mwy gan bobl yn gyfnewid am hynny. Y cam nesaf fydd cymhwyso'r un egwyddorion o gymorth a chymhellion i Fudd-dal Tai.

- 1.7 Mae'r Llywodraeth wedi atgyfnerthu cymhellion i weithio drwy gyflwyno'r Fargen Newydd ac ehangu'r ddarpariaeth hon i amrywiaeth ehangach o bobl, er enghraifft y rheini sy'n cael Budd-dal Analluogrwydd. Mae taliadau ychwanegol i bobl sy'n rhoi'r gorau i gael budd-daliadau allan o waith, yn cynnwys y Grant Swyddi, Credyd Mewn Gwaith a Chredyd Dychwelyd i'r Gwaith, wedi helpu pobl i symud i waith llawn amser. Ac rydym wedi diwygio'r system budd-daliadau i gynorthwyo'r broses o symud i mewn i waith, er enghraifft drwy gyflwyno Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Mae ein Papur Gwyn¹, a gyhoeddwyd y llynedd, yn nodi camau nesaf y rhaglen ddiwygio hon a'r nod yw sicrhau na fydd unrhyw un sy'n gallu gweithio yn gorfod parhau i fod ar fudd-daliadau. A nodwyd, yn Adeiladu Dyfodol Prydain², sut y byddwn yn codi'r Deyrnas Unedig allan o ddirwasgiad i gyfnod o adferiad ac yn moderneiddio ein gwasanaethau cyhoeddus.
- 1.8 O dan ein diwygiadau, mae gan gwsmeriaid hawl bellach i ddisgwyl cael cymorth gan system lles fodern ond mae ganddynt gyfrifoldebau hefyd. Credwn y dylai'r rhan fwyaf o bobl o oedran gweithio fod mewn gwaith neu baratoi i symud i mewn i waith yn gyfnewid am yr help a gynigir gan y system budd-daliadau. Gallai system fforddiadwy o gymorth tai, sy'n creu cymhellion i weithio, chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ader yr economi.
- 1.9 Ein prif amcan ar gyfer system Budd-dal Tai ddiwygiedig yw y dylai ategu ein rhaglen lles ehangach drwy gynorthwyo pobl i symud i mewn i waith. Ond dylai hefyd ategu eu dyheadau i gael cartref safonol mewn cymuned gymysg, a dylai fod yn fforddiadwy a rhoi gwerth am arian.
- 1.10 Mae'r broses o gyflwyno'r Lwfans Tai Lleol wedi gwella'r dewis a gaiff cwsmeriaid drwy gynnig ffordd decach o gyfrifo hawl i fudd-dal yn seiliedig ar yr ardal lle maent yn byw a maint eu teulu. Mae wedi darparu system llawer mwy modern sy'n sicrhau bod cyfraddau budd-dal yn cael eu cyflwyno'n glir. Yna gall cwsmeriaid wneud dewisiadau hyddysg am eu hanghenion tai a gwneud cymariaethau clir ynghylch y lefelau cymorth sydd ar gael tuag at eu costau tai. Mae hefyd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb personol oherwydd telir y budd-dal yn uniongyrchol i'r cwsmer yn y rhan fwyaf o achosion.
- 1.11 Fodd bynnag mae angen gwneud mwy i gefnogi cymhellion i weithio. Gall y rhyngweithio cymhleth rhwng Budd-dal Tai a budd-daliadau a chredydau treth eraill arwain at bryderon neu gymhlethdod o hyd ymysg pobl ynghylch manteision gweithio.
- 1.12 Hefyd, wrth roi'r Lwfans Tai Lleol ar waith, cafwyd cynnydd mwy mewn gwariant ar gyfer Budd-dal Tai na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, gyda chwsmeriaid mewn rhai ardaloedd yn cael llawer mwy o fudd nag eraill o'r gallu i gadw hyd at £15 o'r swm sy'n ychwanegol i'w rhent. Mewn rhai ardaloedd, mae'r ffaith y ceir eiddo drud iawn wedi aflunio'r cyfrifiadau ac wedi golygu y gall rhai tenantiaid

¹ Codi disgwyliadau a chynnyddu cefnogaeth: diwygio lles ar gyfer y dyfodol. Rhagfyr 2008

² Adeiladu Dyfodol Prydain CM7654 Mehefin 2009

rentu eiddo neu y cânt eu lleoli mewn llety dros dro sy'n llawer drutach na'r rheini y gall teuluoedd eraill eu fforddio, hyd yn oed pan fydd dewisiadau amgen safonol ond rhatach ar gael. Er mwyn mynd i'r afael â'r canlyniadau anfwriadol hyn, bydd angen i ni wneud mwy o ddiwygiadau yn y dyfodol.

- 1.13 Er tegwch, ac er mwyn helpu i ostwng costau, cyhoeddwyd yng Nghyllideb 2009, y byddem, o fis Ebrill 2010, yn dileu'r darpariaethau sy'n caniatáu i gwsmeriaid Lwfans Tai Lleol gadw budd-dal sy'n fwy na'r rhent y maent yn ei dalu. Ond o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn yr haf, daeth yn amlwg ei bod yn bosibl na fydd y cynnig hwn yn cyflawni'r cynilion a ragwelwyd ac y byddai gweithredu heb ystyried ymhellach yn arwain at anfanteision eraill.
- 1.14 Felly fel y cyhoeddwyd yn yr Adroddiad Rhag-gyllidebol, ni fyddwn yn dileu'r rheol £15 ychwanegol ym mis Ebrill 2010 a byddwn yn gohirio gwneud diwygiadau am flwyddyn. Bydd hyn yn ein galluogi i ymgynghori ar y ffyrdd y gall Budd-dal Tai gynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith, targedu adnoddau lle y mae eu hangen fwyaf, a sicrhau bod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn adlewyrchu'n deg y rhenti a delir fel arfer gan deuluoedd eraill sy'n gweithio nad ydynt yn cael Budd-dal Tai, a sicrhau y gellir rheoli gwariant. Yna byddwn yn gallu datblygu'r cynllun polisi gorau i gyflawni ein holl amcanion.

Ein diwygiadau hyd yma

- 2.1 Pan ddaeth y Llywodraeth hon i rym, roedd y broses o weinyddu Budd-dal Tai yn aml yn wael gydag amrywiadau eang ledled y wlad. Roedd y broses weinyddu yn rhy gymhleth, ni fuddsoddwyd digon ynddi ac nid oedd ganddi ddigon o broffil strategol.
- 2.2 Un o'n blaenoriaethau cyntaf oedd cynorthwyo gwelliannau ym mherfformiad gweinyddol awdurdodau lleol. Mewn llawer gormod o achosion, gorfodwyd cwsmeriaid i aros am gyfnod annerbyniol cyn cael eu budd-dal. Golygai hyn fod eu cartrefi mewn perygl a pheryglwyd eu siawns o ddychwelyd i'r gwaith yn gyflym.
- 2.3 Mae'r Llywodraeth wedi mynd i'r afael â'r broses weinyddu wael yn uniongyrchol. Yn ystod y pum mlynedd hyd at 2007/08, mae cyfartaledd yr amser a gymerir i brosesu cais newydd am Fudd-dal Tai wedi mwy na haneru, o 55 i 26 o ddiwrnodau calendr³. Ar gyfer y 15 y cant o awdurdodau lleol â'r perfformiad gwaethaf, mae cyfartaledd yr amser a gymerir i brosesu cais newydd wedi gostwng 45 o ddiwrnodau calendr. Cafwyd gwelliant yr un mor drawiadol yng nghyflymder cyfartalog prosesu newidiadau mewn amgylchiadau, gyda gostyngiad o 19 o ddiwrnodau calendr bum mlynedd yn ôl i wyth o ddiwrnodau calendr yn 2007/08. Hefyd bu gostyngiad o 75 y cant yn nifer y cwynion am Fudd-dal Tai i'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol o 4,028 yn 2000/01 i 929 yn 2008/09.
- 2.4 Ein prif flaenoriaeth arall oedd gostwng y lefelau uchel o dwyll a chamgymeriadau yn y system budd-daliadau. Mae strategaeth y Llywodraeth yn dangos canlyniadau da ar draws y system budd-daliadau yn gyffredinol, gyda gordaliadau draean yn llai nag yn 2000/01. Fodd bynnag, mae cymhlethdod rheolau Budd-dal Tai, llwyth achosion amrywiol a dylanwad y dirywiad economaidd yn golygu bod yr her o leihau nifer yr achosion o rai mathau o dwyll a chamgymeriadau i'r eithaf yn wahanol iawn ar gyfer Budd-dal Tai nag ar gyfer budd-daliadau eraill.
- 2.5 Er bod yr Ystadegau Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2009 yn dangos bod lefelau twyll Budd-dal Tai a gordaliadau a wnaed mewn camgymeriad wedi aros bron yr un fath ers 2002/03, gwnaed gwelliannau ar lefel is. Y llwyddiant mwyaf oedd lleihau nifer y camgymeriadau swyddogol bron i hanner ers 2002/03, a lleihau twyll tua chwarter dros yr un cyfnod. Mae camgymeriadau gan gwsmeriaid wedi cynyddu tua thraean ers 2002/03, ond mae wedi lleihau ers 2005/06 pan oedd ar ei lefelau uchaf.

³ Cyfrifir nifer y diwrnodau o'r dyddiad y derbynnir y cais hyd at y dyddiad y gwneir y penderfyniad, yn cynnwys yr amser a gymerir gan y cwsmer i roi gwybodaeth a thystiolaeth.

- 2.6 Rydym yn adolygu'r strategaethau sydd gennym ar gyfer lleihau lefelau twyll a chamgymeriadau mewn Budd-dal Tai yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn targedu'n effeithiol yr ardaloedd hynny sy'n peri'r golled fwyaf. Mae'r strategaeth camgymeriadau a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2007 wedi cyflwyno rhai gwelliannau ac rydym yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn i gyflawni gostyngiadau pellach yn y dyfodol, yn enwedig o ran twyll a chamgymeriadau gan gwsmeriaid.
- 2.7 Rydym yn parhau i weithio'n galed gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor yn cael eu darparu'n fwy effeithlon byth. Mae'r Prosiect I Mewn ac Allan o Waith yn gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i gwsmeriaid sy'n symud i mewn ac allan o waith yn aml drwy dorri'r amser a gymerir i brosesu ceisiadau a lleihau'r angen i ddelio â mwy nag un asiantaeth.
- 2.8 Rydym yn gwneud mwy i sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o fynediad i wybodaeth am hawliadau i fod yn sail i asesiadau budd-daliadau drwy roi mynediad diogel i wybodaeth am fudd-daliadau a chredyd treth i awdurdodau lleol drwy'r System Gwybodaeth Cwsmeriaid. Rydym bron wedi cwblhau prosiect i drosglwyddo hawliadau yn electronig ac rydym hefyd wedi rhoi Government Connect ar waith – ffordd ddiogel o drosglwyddo gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog
- 2.9 Yn olaf, fel y trafodir yn llawn yn y ddogfen hon, rydym wedi cyflwyno'r prif ddiwygiad strwythurol cyntaf i Fudd-dal Tai ers 1988, y Lwfans Tai Lleol.

Y Prosiect I Mewn ac Allan o Waith

Fel rhan o agenda Trawsnewid Gwasanaeth ehangach y Llywodraeth, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM wedi sefydlu rhaglen gydweithio er mwyn nodi lle y gellid gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth a gynigir i'n cwsmeriaid drwy gydweithio'n agosach. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar wella'r gwasanaeth a gynigiwn i gwsmeriaid sy'n symud i mewn ac allan o waith ac sy'n gorfod delio â'r Ganolfan Byd Gwaith ar gyfer eu budd-daliadau allan o waith, Cyllid a Thollau EM ar gyfer credydau treth ac awdurdodau lleol ar gyfer Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Treialon

Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod yn rhaid i rai cwsmeriaid gysylltu sawl gwaith â thri sefydliad gwahanol er mwyn trafod eu hawliadau, sy'n ychwanegu at yr oedi mewn amseroedd prosesu. Roedd y broses yn llafurus i gwsmeriaid yn enwedig pan oedd angen i bob sefydliad gael yr un wybodaeth a thystiolaeth.

Cynhaliwyd treialon mewn chwe ardal awdurdod lleol: Gorllewin Gwlad yr Haf, Gorllewin Lothian, Lambeth, Lerpwl, Merthyr Tudful, Sedgemoor. Dechreuodd y treialon ym mis Medi 2007 a chwmpaswyd cyfanswm o 38 o safleoedd: 6 awdurdod lleol, 2 Ganolfan Gyswllt, 24 o Ganolfannau Gwaith, 5 Canolfan Trafod Budd-daliadau, a'r Swyddfa Credyd Treth.

Gwerthuso

Gwerthuswyd canlyniadau'r prosesau newydd hyn a chanfuwyd bod:

- Profiad cwsmeriaid wedi gwella'n sylweddol;
- Cwsmeriaid yn cael taliadau'n gyflymach;
- Cwsmeriaid yn fwy hyderus i ymgymryd â gwaith byrdymor;
- Y rhan fwyaf o'r staff yn credu eu bod yn darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid; ac
- Amseroedd prosesu ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor wedi gwella hyd at 15 y cant.

Gweithrediad Cenedlaethol

Rydym wedi penderfynu gweithredu'r prosesau I Mewn ac Allan o Waith yn genedlaethol. Erbyn diwedd mis Tachwedd 2009, roedd 312 o ardaloedd awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r prosesau newydd gyda 60 pellach wedi'u cynllunio ar gyfer mis Rhagfyr. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r holl brosesau yn genedlaethol erbyn mis Mawrth 2010.

Yr achos dros ddiwygio Budd-dal Tai

- 3.1 Mae Budd-dal Tai yn rhannu'r un amcanion sylfaenol â'r system lles ehangach sef darparu rhwyd ddiogelwch pan fydd angen helpu pobl sydd ar incwm isel i fyw mewn cartref o safon. Ond mae'n rhaid iddo hefyd ymgorffori'r syniad mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'n rhaid i Fudd-dal Tai fod yn glir ac yn hygyrch i gwsmeriaid a staff; mae'n rhaid iddo ysgogi pobl a'u cynorthwyo i ddechreio i'r gwaith; ac mae'n rhaid iddo sicrhau y caiff adnoddau eu targedu lle mae eu hangen fwyaf.
- 3.2 Yng Nghyllideb 2008, nododd Canghellor y Trysorlys fwriad y Llywodraeth i adolygu'r system Budd-dal Tai i bobl o oedran gweithio. Edrychodd yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd Budd-dal Tai o ran hyrwyddo cymhellion i weithio, effeithlonrwydd, tegwch a gwerth am arian. Byddwn yn datblygu'r casgliadau a luniwyd o'r adolygiad drwy ddiwygio Budd-dal Tai yn sylfaenol mewn pum ardal allweddol arall.

Cynorthwyo pobl i mewn i waith

- 3.3 Dros y 12 mlynedd diwethaf, diwygiwyd y system lles er gwell. Rydym wedi rhoi cymorth cynyddol i helpu pobl i symud i mewn i waith ynghyd â chodi ein disgwyliadau o unigolion i dderbyn yr help a gynigir. Mae cyflwyno'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol a'r system credyd treth wedi golygu bod bron pawb yn well eu byd mewn gwaith nag ar fudd-daliadau.
- 3.4 Dangosodd yr adolygiad fod angen i Fudd-dal Tai wneud mwy i gynorthwyo pobl i mewn i waith. I rai, nid yw'r buddiannau sy'n gysylltiedig â symud i mewn i waith yn ddigon clir ac nid yw llawer o gwsmeriaid yn ymwybodol y gallant hawlio Budd-dal Tai pan fyddant yn gweithio. Hefyd, gall y pryder sy'n gysylltiedig â'r broses o symud i mewn i waith olygu y bydd pobl yn penderfynu peidio â gwneud hynny os byddant yn ofni na fyddant yn gallu talu eu rhent. Mae pobl yn ofni mwy hefyd pan na fyddant yn gwybod am yr effaith y bydd newidiadau mewn amgylchiadau yn ei chael ar eu hawl i gael budd-daliadau. Gall y rhyngweithio cymhleth gyda budd-daliadau eraill a chredydau treth, a'r effaith ar gyfraddau budd-daliadau pan fydd incwm yn cynyddu, gymell pobl i beidio â symud i mewn i waith hyd yn oed pe byddent yn well eu byd drwy wneud hynny.

Fforddiadwyedd a chynaliadwyedd

- 3.5 Rydym yn wynebu heriau gyda chost a chynaliadwyedd Budd-dal Tai yn y dyfodol. Mae'r gwariant ar Fudd-dal Tai wedi cynyddu mewn termau gwirioneddol dros y deng mlynedd diwethaf. Mae nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys mesurau polisi i fynd i'r afael â thlodi plant fel diystyru Budd-dal Plant. Hefyd cafwyd cynnydd sylweddol mewn llwyth achosion yn ddiweddar sy'n dangos pa mor dda rydym yn cynorthwyo pobl drwy'r dirwasgiad. Ond y prif ffactor sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant yw'r cynnydd mewn rhent yn y sector preifat a'r sector cymdeithasol.
- 3.6 Wrth roi'r Lwfans Tai Lleol ar waith, gwelwyd costau uwch na'r disgwyl oherwydd ffactorau fel newidiadau ym maint ardaloedd budd-daliadau, dileu gallu swyddogion rhent i eithrio rhenti eithriadol o uchel o gyfrifiadau budd-daliadau a nifer gynyddol o bobl yn hawlio Budd-dal Tai. Mewn rhai ardaloedd lle ceir prisiau uchel, yn enwedig y rhannau drutaf o ddinasoedd mawr, efallai y bydd cwsmeriaid Budd-dal Tai yn gallu cael llety drutach na theuluoedd sy'n gweithio nad oes ganddynt hawl i gael budd-dal. Mae rhai ardaloedd hefyd wedi manteisio llawer mwy nag eraill oherwydd eu bod yn gallu cadw £15 yn ychwanegol ar y rhent a dalwyd.
- 3.7 Mae angen rhagor o ddiwygiadau er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn a sicrhau bod yr hawl i gael Budd-dal Tai yn seiliedig ar gyfres deg o reolau sy'n cefnogi llety safonol i denantiaid mewn cymunedau cymysg, ond sydd hefyd yn cefnogi cymhellion i weithio ac yn sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr hefyd.

Dewis a chyfrifoldeb

- 3.8 Cyflwynodd y Lwfans Tai Lleol yr egwyddor o dalu cyfradd sylfaenol o lwfans i gwsmeriaid sy'n byw yn y sector rhentu preifat. Roedd sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu cadw rhywfaint o fudd-dal yn ychwanegol i'w rhent yn gymhelliant ariannol pwysig i denantiaid a'u hanogodd i edrych o gwmpas am yr eiddo sy'n rhoi'r gwerth gorau neu drafod eu rhent gyda'u landlord. Roedd hyn yn golygu bod cwsmeriaid Budd-dal Tai mewn sefyllfa well i ddewis rhwng safon a phris eu llety. Mae hefyd yn golygu llawer llai o waith papur na'r system flaenorol lle'r oedd angen i swyddogion rhent wneud penderfyniadau yn ymwneud yn benodol ag eiddo ar geisiadau unigol am Fudd-dal Tai.
- 3.9 Mae angen i ni sicrhau bod system briodol ar waith sy'n rheoli lefelau'r rhent y byddwn yn ei dalu fel cymorth i'n cwsmeriaid – ni fyddai'n briodol i denantiaid Budd-dal Tai allu manteisio ar gymorth anghyfyngedig ar gyfer eu llety. Ond nid ydym chwaith am ddychwelyd i'r system weinyddol gymhleth y mae'r Lwfans Tai Lleol yn ei disodli lle ceir cyfeiriadau gan swyddogion rhent. Yn ogystal â grymuso tenantiaid, rydym yn credu y gallai darparu swm ychwanegol at y rhent a delir helpu i osod rheolaethau ar renti a godir ar gwsmeriaid Budd-dal Tai. Rydym yn amcangyfrif mai tua £11 yr wythnos yw'r swm ychwanegol a ddyfernir i'r cwsmeriaid hynny sy'n gymwys.

- 3.10 Fodd bynnag, mae'r ffordd y mae cyfraddau wedi'u pennu wedi cynyddu costau o gymharu â'r cynllun blaenorol. Er mwyn rheoli'r costau cynyddol hyn, cyhoeddodd y Llywodraeth yng Nghyllideb 2009 na fyddai cwsmeriaid bellach yn gallu cael mwy o Fudd-dal Tai na'r hyn y mae'n rhaid iddynt ei dalu mewn rhent ac o ganlyniad, cynhaliodd yr Adran ymgynghoriad ar y cynigion hyn. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, codwyd pryderon y gallai fod anfanteision i dynnu'r swm ychwanegol yn ôl gan ei fod yn dileu cymhelliant i gwsmeriaid wneud dewisiadau am eu llety a allai helpu i ostwng prisiau rhenti.
- 3.11 Rydym felly wedi cyhoeddi ein bwriad yn Adroddiad Rhag-gyllidebol 2009 i beidio â dileu'r swm ychwanegol o £15 fel y bwriadwyd y mis Ebrill hwn ond yn hytrach i ohirio'r diwygiad am flwyddyn a lansio ymarfer ymgynghori ar unwaith ar opsiynau ar gyfer diwygio Budd-dal Tai. Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar ffyrdd y gall Budd-dal Tai gynorthwyo pobl i ddychwelyd i'r gwaith, targedu adnoddau lle y mae eu hangen fwyaf, a sicrhau bod cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn adlewyrchu'n deg y rhenti a delir fel arfer gan deuluoedd eraill sy'n gweithio nad oes ganddynt hawl i gael Budd-dal Tai. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu polisi manwl i'r Lwfans Tai Lleol er mwyn cyflawni ein hamcanion sef fforddiadwyedd, tegwch a gwella cymhellion i weithio.

Tai safonol a chymunedau cymysg

- 3.12 Un o'n nodau ar gyfer Budd-dal Tai yw y dylai helpu tenantiaid i fyw mewn eiddo ar rent sydd o safon resymol. Gwyddom fod eiddo sydd mewn cyflwr gwael yn effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sydd ar incwm isel a bod y rheini sy'n cael o leiaf un budd-dal prawf modd yn fwy tebygol, yn Lloegr, o fyw mewn eiddo nad yw'n cyrraedd y safon Tai Safonol. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â'r mater hwn a chynyddu canran y teuluoedd sy'n agored i niwed sy'n byw mewn cartrefi safonol yn y sector rhentu preifat⁴.
- 3.13 Rydym hefyd am weld os gallai Budd-dal Tai fod yn ffactor i wella ôl-troed carbon eiddo rhent preifat, drwy adeiladu ar strategaethau effeithlonrwydd ynni sy'n bodoli eisoes a datblygu polisiau newydd yn y maes hwn o bosibl.

Gweledigaeth hirdymor ar gyfer Budd-dal Tai

- 3.14 Credwn fod angen diwygio Budd-dal Tai yn seiliedig ar yr egwyddorion allweddol canlynol:
- Mae'n cynorthwyo cwsmeriaid i mewn i waith;
 - Mae'n cefnogi polisiau ehangach y Llywodraeth i gynyddu'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy o safon mewn cymunedau cymysg;

⁴ Targed CGC 7 – Cartrefi Safonol: Cyhoeddiad Cymunedau a Llywodraeth Leol

- Mae'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor; ac
 - Mae'n cynnig lefel deg o gymorth ac yn diwallu anghenion tai teuluoedd sydd ar incwm isel ac yn gweithredu i atal digartrefedd.
- 3.15 Mae angen i Fudd-dal Tai fod yn symlach i'w ddeall a'i weinyddu er mwyn gwella'r gwasanaeth a gynigir i'n cwsmeriaid. Mae angen i'r broses hon o symleiddio sicrhau taliadau budd-dal mwy sefydlog a rhagweladwy, fel y gall pobl fod yn hyderus y gallant dalu eu rhent ar amser yn enwedig wrth iddynt symud i mewn i waith.
- 3.16 Yn yr hirdymor, credwn fod achos da dros symud oddi wrth system Budd-dal Tai ar wahân yn yr un modd ag y cawsom ein denu at y syniad o un budd-dal i bobl o oedran gweithio. Yn y pen draw gallai hyn olygu integreiddio mwy gyda rhannau eraill o'r system budd-daliadau, a fyddai'n symleiddio'r rheolau a'r broses weinyddu. Gallai hyn ddileu rhwystrau i weithio drwy symleiddio strwythur cyfraddau budd-daliadau unwaith y bydd pobl yn gweithio ynghyd â chyfraddau didynnu llai llym ar draws budd-daliadau. Gallai hefyd olygu bod y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid yn cael eu hintegreiddio'n fwy effeithiol ac effeithlon.
- 3.17 Dyhead hirdymor yw hwn. Ni ellir cyflwyno'r newid dros nos a byddai'n rhaid iddo gael ei gyflawni mewn sawl cam. Ond mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cynrychioli rhai o'r camau y mae angen i ni eu cymryd i sicrhau ein bod ar y llwybr cywir i gyflawni gweledigaeth hirdymor ar gyfer Budd-dal Tai.

Cynorthwyo pobl i mewn i waith

- 4.1 Mae gwaith yn chwarae rhan hanfodol yn y broses o gyflawni potensial llawn unigolion a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae'n hanfodol bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir i alluogi pobl i fod yn annibynnol a byw bywydau cyflawn a chynhyrchiol. Mae angen i Fudd-dal Tai helpu i ddarparu'r cymorth hwn.
- 4.2 Mae angen i Fudd-dal Tai wneud mwy i helpu pobl i fanteisio ar gyfleodd gwaith. Rydym wedi nodi pedwar maes lle mae angen i ni wneud mwy i gynorthwyo cwsmeriaid i symud i mewn i waith.

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth

- 4.3 Er gwaethaf y cymhellion ariannol i symud i mewn i waith, mae nifer y bobl sy'n gweithio sy'n manteisio ar Fudd-dal Tai yn isel o hyd. Rydym yn amcangyfrif nad yw tua hanner y bobl sy'n gweithio y mae ganddynt hawl i gael Budd-dal Tai yn ei hawlio o hyd.
- 4.4 Gwyddom fod llawer o gwsmeriaid yn parhau i boeni ynghylch symud i mewn i waith am nad ydynt yn gwybod ei bod yn bosibl y gallant gael Budd-dal Tai o hyd tra eu bod yn gweithio⁵ a'u bod yn ofni efallai na fyddant yn gallu talu'r rhent. O'r rheini sy'n poeni, ychydig iawn ohonynt sy'n cael gwybod am yr help hwn tan ar ôl iddynt dderbyn cynnig swydd.
- 4.5 Rydym yn cyflwyno strategaeth marchnata a chyfathrebu sy'n dangos bod gweithio yn talu ac yn sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r cymorth ariannol a allai fod ar gael iddynt tra byddant yn gweithio. Ein strategaeth yw targedu partneriaid allweddol fel sefydliadau hawliau lles, cymdeithasau tai a grwpiau landlordiaid i gyfleu'r neges. Bydd hyn yn sicrhau bod gan sefydliadau sy'n darparu cyngor a chymorth i gwsmeriaid y wybodaeth gywir wrth roi cyngor ar gyflogaeth i gwsmeriaid. Bydd y strategaeth yn sicrhau bod cwsmeriaid yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt fel y gallant wneud penderfyniadau hyddysg i chwilio am swyddi a'u derbyn.

⁵ *Housing Benefit and Council Tax Benefit as in-work benefits; claimants and advisors knowledge, attitudes and experiences* Adroddiad Ymchwil DWP Rhif 383 Medi 2006

Ymgyrch Budd-daliadau Gweithio: codi ymwybyddiaeth o fudd-daliadau y gellir eu talu pan fydd pobl yn gweithio

Gellir talu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor i bobl sy'n gweithio ac yn ennill cyflog. Ond ychydig o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth a geir ynghylch hyn ymysg cwsmeriaid budd-daliadau sydd allan o waith a rhai ymgynghorwyr proffesiynol yn y sectorau tai preifat a chymdeithasol.

Pe byddai'r cwsmeriaid hyn yn gwybod y gallent ddychwelyd i'r gwaith a pharhau i gael Budd-dal Tai, gallai hyn fod wedi eu hannog i chwilio am waith.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn: <http://www.dwp.gov.uk/adviser/updates/working-benefits>

Hwyluso'r broses o symud i mewn i waith

- 4.6 Mae'r Prosiect I Mewn ac Allan o Waith wedi dangos sut y mae'n bosibl hwyluso'r prosesau dan sylw ar gyfer y rheini sy'n symud i mewn ac allan o waith yn rheolaidd. Mae'n fwy pendant gan mai dim ond unwaith y mae angen i gwsmeriaid ddarparu gwybodaeth i ategu eu cais. Ond rydym yn cydnabod mai'r cyfnod o symud i mewn i waith, lle gallai cyflogau amrywio neu fod yn ansicr, yw'r cyfnod anoddaf i lawer o gwsmeriaid. Yn ystod y cyfnod hwn bydd angen i ni roi mwy o sicrwydd i bobl ac rydym am sicrhau bod Budd-dal Tai yn gwneud hynny.
- 4.7 Mae Budd-dal Tai eisoes yn helpu i gynorthwyo pobl yn ystod y cyfnod hwn drwy dalu budd-daliadau, ar y gyfradd allan o waith, am bedair wythnos ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Mae hyn yn rhoi cymorth gwerthfawr ar adeg anodd.
- 4.8 Ond rydym yn credu y gallwn wneud mwy drwy ddisodli'r trefniadau presennol gyda Thaliad Symud i mewn i Waith newydd. Gallai hwn ddarparu Budd-dal Tai ychwanegol, ar y gyfradd allan o waith, i bobl sy'n symud i mewn i waith ond byddai cyfnod cymhwyso hirach yn berthnasol er mwyn cael y taliad fel bod yr help yn canolbwyntio ar y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur.
- 4.9 Gallai taliadau Symud i mewn i Waith weithio drwy sefydlogi'r hawl i gael Budd-dal Tai am dri mis ar y gyfradd dalu yn union cyn i'r cwsmer symud i mewn i waith. Gellid anwybyddu'r rhan fwyaf o'r newidiadau mewn amgylchiadau, yn cynnwys newidiadau yn faint o gyflog a geir, yn ystod cyfnod y taliad waeth p'un a ydynt yn ffafriol neu'n anffafriol. Byddai hyn yn syml i gwsmeriaid ei ddeall a byddai'n golygu nad oes raid i'r awdurdod lleol gofnodi neu brosesu llawer o newidiadau mewn amgylchiadau.

4.10 Ar ddiwedd tri mis y cymorth o Symud i mewn i Waith, byddai'r awdurdod lleol yn adolygu amgylchiadau presennol y cwsmer o dan y rheolau arferol ar gyfer pennu hawliad. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau hynny, gallai fod gan y cwsmer hawl i gael Budd-dal Tai o hyd a gellid ailasesu hyn yn gyflym heb fod angen gwneud cais newydd neu ohirio taliad.

Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno y bydd Taliad Symud i mewn i Waith yn helpu i hwyluso'r cyfnod symud i mewn i waith?

Cwestiwn 2. Beth fyddai prif nodweddion cynllun o'r fath i sicrhau'r effaith fwyaf a'r risg leiaf?

Dyfarniadau cyfnod sefydlog

4.11 Mae rheolau Budd-dal Tai yn aml yn gymhleth gan ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid nodi newidiadau mewn amgylchiadau pryd bynnag y byddant yn digwydd fel y gellir ailgyfrifo taliadau. Mae'r rheolau hyn yn creu cymhlethdod ac ansicrwydd i gwsmeriaid sy'n gweithio yn enwedig gan fod angen iddynt roi gwybod i'r awdurdod lleol am y newidiadau lleiaf mewn incwm.

4.12 Mae'r gofyniad i roi gwybod i'r awdurdod lleol am bob newid mewn enillion hefyd yn effeithio'n sylweddol ar lefel y twyll a chamgymeriadau yn y system Budd-dal Tai, gan fod unrhyw newid na chaiff ei nodi mewn pryd yn debygol o arwain at dalu swm anghywir o fudd-dal i'r cwsmer.

4.13 Rydym yn bwriadu adeiladu ar enghraifft y system credyd treth a chyflwyno system o ddyfarniadau cyfnod sefydlog ar gyfer cwsmeriaid Budd-dal Tai a fydd yn sefydlogi'r budd-dal a ddyfernir am chwe mis.

4.14 Byddai dyfarniad cyfnod sefydlog o chwe mis yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng dileu'r angen i nodi mân amrywiadau mewn amgylchiadau a chydabod y bydd newidiadau mawr yn digwydd dros amser y bydd angen eu hadlewyrchu yn y budd-dal a ddyfernir. Byddai angen rhoi ystyriaeth fanwl i gynllun y newidiadau y byddai angen eu nodi. Byddai hyn yn newid radical i'r rheolau Budd-dal Tai presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol nodi newidiadau cyn gynted â phosibl. Byddai dyfarniadau yn para am gyfnodau sefydlog ond gellid eu hadnewyddu cyhyd ag y bo'r cwsmer yn parhau i fodloni'r rheolau cymhwyster.

4.15 I'r rheini sy'n gweithio, gellid sefydlogi dyfarniadau budd-dal am chwe mis. Gallai hyn olygu y byddai Budd-dal Tai yn ddyfarniad wythnosol sefydlog na fyddai newidiadau mewn amgylchiadau, yn cynnwys newidiadau mewn incwm ac enillion, yn effeithio arno. Ar ddiwedd y chwe mis, byddai'r awdurdod lleol yn ailasesu'r hawliad yn seiliedig ar amgylchiadau presennol. Ni fyddai hyn o reidrwydd yn golygu bod angen gwneud cais newydd am fudd-dal na llenwi ffurflenni hir: Gellid mabwysiadu gwersi a ddysgwyd drwy 'ailhawlio cyflym' – proses ailhawlio syml – er mwyn ei gwneud yn bosibl ailasesu budd-daliadau yn gyflym ac yn syml.

- 4.16 Opsiwn arall fyddai sefydlogi'r elfen enillion yn unig o'r cyfrifiad Budd-dal Tai am gyfnod sefydlog. Fel hyn, byddai angen nodi a phrosesu newidiadau eraill mewn amgylchiadau yn y ffordd arferol o hyd, ond ni fyddai angen nodi newidiadau mewn enillion tan ddiwedd y cyfnod sefydlog.
- 4.17 Neu, byddai newidiadau o fewn band penodol yn cael eu hanwybyddu yn yr un modd â'n cynnig am Daliadau Symud i mewn i Waith. Byddai cwsmeriaid yn cael gwybod am y newidiadau hynny y byddai angen eu nodi a pha newidiadau y gellid eu hanwybyddu ar ddechrau'r dyfarniad.
- Cwestiwn 3. A ddylem gyflwyno dyfarniadau Budd-dal Tai cyfnod sefydlog i'r cwsmeriaid hynny sydd mewn gwaith?
- Cwestiwn 4. Beth fyddai prif nodweddion cynllun o'r fath i sicrhau'r effaith fwyaf ynghyd ag osgoi unrhyw gymhellion gwrthnysig a lleihau'r risg i'r rheini y mae eu hincwm yn gostwng yn sylweddol?

Mynd i'r afael â chyfraddau budd-daliadau uchel

- 4.18 Byddwn yn gweld yn y bennod nesaf sut y gall cyfraddau budd-daliadau uchel arwain at annog pobl i beidio â gweithio neu gynyddu enillion pobl pan fyddant yn gweithio, mewn rhai ardaloedd drud. Bydd y diwygiadau a nodir yn ddiweddarach yn yr ymgynghoriad hwn yn sicrhau bod dewisiadau tai yn seiliedig ar ffactorau tebyg waeth p'un a fydd y tenant yn gallu talu ei daliadau rhent i gyd gan ddefnyddio ei enillion, p'un a ychwanegir at ei enillion drwy fudd-daliadau neu p'un a fydd yn cael Budd-dal Tai ar y gyfradd lawn.
- 4.19 Byddai hyn yn helpu i wella cymhellion i weithio drwy sicrhau nad yw'r system budd-daliadau yn cynorthwyo cwsmeriaid i gael eu gosod mewn llety drud iawn na allent ei fforddio pe byddent yn symud oddi ar fudd-dal. Gallem wneud hyn drwy sicrhau bod cyfraddau Budd-dal Tai wedi'u gosod ar lefel y gall teuluoedd tebyg nad oes ganddynt hawl i gael budd-dal ei fforddio.

System deg a fforddiadwy

- 5.1 Rydym am sicrhau bod pobl ar incwm isel yn gallu cael tai safonol felly mae'r amrywiadau yng nghost tai ar rent yn ffactorau pwysig wrth bennu cyfraddau Budd-dal Tai. Ond mae'r gwariant ar Fudd-dal Tai yn parhau i gynyddu – i fyny i £17 biliwn yn 2008/09. Mae'r cynnydd hwn wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd mewn lefelau rhent ymhob math o denantiaeth.
- 5.2 Rhan o'r broblem sy'n ysgogi cynnydd hirdymor mewn rhenti yw diffyg cyflenwad yn y farchnad dai ac rydym yn ymroddedig i adeiladu rhagor o gartrefi i fynd i'r afael â hyn. Ond mae hefyd angen i ni sicrhau bod Budd-dal Tai yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y tymor byr a chanolig fel bod y system yn parhau i allu sicrhau bod tai safonol ar gael.

Cyfraddau budd-daliadau teg a meysydd budd-daliadau cliriach

- 5.3 Pwrpas sylfaenol Budd-dal Tai yw rhoi cymorth unigol i bobl sydd ar incwm isel i'w galluogi i fforddio llety safonol. Er mwyn pennu lefel deg o fudd-dal i gwsmeriaid, mae angen i ni fod yn glir beth rydym yn ei olygu wrth lefel resymol o rent ar gyfer cymorth drwy Fudd-dal Tai. Mae hefyd angen i ni nodi: yr ardaloedd i bennu'r gyfradd honno ynddynt; llety o ba faint y mae'n rhesymol rhoi cymorth ar ei gyfer drwy fudd-daliadau; a ph'un a oes materion arbennig i'w hystyried mewn ardaloedd drud o'r wlad.
- 5.4 O dan yr hen ffordd o bennu rhenti teg ar gyfer ardal, roedd swyddogion rhent yn asesu pob eiddo, ac yn pennu uchafswm Rhent Cyfeirio Lleol er mwyn adlewyrchu'r rhenti cyfartalog sydd ar gael yn yr ardal. Mae'r Lwfans Tai Lleol yn llawer llai biwrocraidd. Bwriedir iddo roi cyfle i bobl sy'n cael Budd-dal Tai fanteisio ar tua hanner yr eiddo sydd ar gael i'w rentu mewn unrhyw ardal benodol. Y nod yw cydbwysu anghenion y cwsmer, gan ei alluogi i fforddio llety o ansawdd safonol, ag anghenion y trethdalwr i beidio â chynnal rhenti afresymol o uchel.
- 5.5 Mae ein hadolygiad o'r system Budd-dal Tai wedi dangos bod angen i ni edrych eto ar y ffordd rydym yn pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar ganolrif y farchnad rhentu preifat ym mhob ardal. Yn benodol, mae angen i ni edrych ar effeithiau rhenti uchel yn y system, yn ogystal ag effeithiau tynnu eiddo Budd-dal Tai o'r cyfrifiad. Mewn rhai ardaloedd – yn enwedig y rheini sy'n cynnwys tai cost uchel iawn – mae'r ffordd y caiff y canolrif ei gyfrifo wedi arwain at gynnydd sylweddol yn lefel y Lwfans Tai Lleol o gymharu â'r hen Renti Cyfeirio Lleol sy'n awgrymu nad ydynt yn adlewyrchu natur y farchnad dai leol yn briodol.

- 5.6 I'r rhan fwyaf o denantiaid, mae cyfraddau'r Lwfans Tai lleol yn golygu y gellir cael llety rhesymol ond nid llety moethus. Ond mewn ardaloedd drud, caiff y cyfraddau hyn eu haflunio gan y nifer fawr o eiddo drud; eiddo na allai'r rhan fwyaf o deuluoedd sy'n gweithio hyd yn oed ystyried ei rentu. Hefyd, gall ardaloedd mawr sy'n cyfuno cymdogaethau cost uchel a rhatach aflunio cyfraddau budd-daliadau i bawb. Felly, er enghraifft, gall rhenti a gaiff eu codi ar gyfer eiddo drud iawn mewn un gymdogaeth godi cyfraddau budd-daliadau ar gyfer tenantiaid preifat sy'n byw mewn ardaloedd cost is gerllaw.
- 5.7 Yn ogystal mae eiddo Budd-dal Tai yn cael ei dynnu o'r cyfrifiad o renti cyfartalog er mwyn osgoi problemau cylchogrwydd. Fodd bynnag efallai y bydd hyn hefyd yn rhoi darlun anghynrychioliadol o'r amrywiaeth o eiddo yn y sector rhentu preifat sydd ar gael yn yr ardal.
- 5.8 Gall hyn arwain at dri chanlyniad. Gall landlordiaid gynyddu eu rhenti ar gyfer cwsmeriaid Budd-dal Tai yn uwch na chyfradd y farchnad, gan godi'r costau ar gyfer trethdalwyr. Gall tenantiaid mewn ardaloedd drud gael eu dal mewn llety cost uchel. Mae pobl nad ydynt yn hawlio Budd-dal Tai na allant fforddio byw mewn eiddo o'r fath hefyd dan anfantais.
- 5.9 Gall cyfraddau Budd-dal Tai uchel hefyd olygu bod pobl yn cael eu dal mewn tlodi a gallant annog pobl i beidio â gweithio oherwydd y bydd angen i gwsmeriaid sy'n symud i mewn i waith ennill mwy yn gyfatebol er mwyn rhoi'r gorau i gael Budd-dal Tai yn llwyr. Mae hefyd yn niweidio cymunedau cymysg lle mae rhai ardaloedd yn cynnwys dim ond teuluoedd cyfoethog iawn a phobl sydd â hawl i gael Budd-dal Tai.
- 5.10 Rydym yn benderfynol o newid hyn drwy ddiwygio ymhellach y ffordd y caiff cyfraddau Lwfans Tai Lleol eu pennu er mwyn anwybyddu'r eiddo drutaf sy'n aflunio'r system.
- 5.11 Mae hefyd angen i ni edrych ar yr ardaloedd lle mae'r cyfraddau hynny yn berthnasol. Mae'n rhaid i Fudd-dal Tai ddarparu ar gyfer amrywiaeth eang o sefyllfaoedd marchnad ledled y wlad ac mae rhenti nodweddiadol yn llawer uwch yng Nghanol Llundain, er enghraifft, o gymharu â rhai ardaloedd eraill. Ond mae angen i ni sicrhau y caiff ffiniau ardaloedd lle ceir rhenti tebyg eu pennu mewn modd sy'n dryloyw ac yn hawdd i bobl ei ddeall.
- 5.12 O dan reolau presennol Budd-dal Tai, pennir Ardaloedd Marchnad Rhentu Bras gan swyddogion rhent sy'n defnyddio dangosyddion dirprwy i bennu ffiniau marchnadoedd rhentu lleol. Mae'r dangosyddion hyn yn seiliedig ar fynediad i amrywiaeth o gyfleusterau iechyd, addysg, hamdden, bancio a siopa. Ni chaiff yr ardaloedd hyn eu pennu'n glir bob amser ac mae hyn wedi arwain at anghydfod. Mae'r ardaloedd yn gymharol fawr weithiau hefyd sy'n golygu bod yn rhaid i gwsmeriaid symud yn gymharol bell er mwyn gallu cael tai fforddiadwy. Felly rydym am glywed safbwyntiau ar sut y dylid pennu'r ardaloedd hyn.

5.13 Rydym am ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer diwygiadau pellach ond credwn y dylem ddiwygio'r ffordd y caiff cyfraddau budd-daliadau eu pennu drwy dynnu'r rhenti drutaf o'r cyfrifiad Lwfans Tai Lleol. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar sut y gallem newid y ffordd y caiff cyfraddau Lwfans Tai Lleol eu pennu ac unrhyw opsiynau eraill y dylem eu hystyried. Gallem:

- dynnu rhai o'r eiddo drutaf yn lleol o'r cyfrifiad, fel sy'n digwydd gyda'r cynllun Rhent Cyfeirio Lleol y mae'r Lwfans Tai Lleol yn ei ddisodli. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, byddai tynnu'r 5 i 10 y cant o renti uchaf mewn cyfrifiad yn golygu y byddai cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn dychwelyd i lefel sy'n unol â'r cyfraddau Rhent Cyfeirio Lleol er bod amrywiadau sylweddol, yn enwedig yn yr ardaloedd cost uchaf;
- tynnu rhai o'r eiddo drutaf yn genedlaethol o'n cyfrifiadau, ac yna pennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol gan gyfeirio at yr eiddo sy'n weddill. Byddai hyn yn golygu nad effeithir llawer ar gyfraddau Lwfans Tai Lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Fodd bynnag, mewn ardaloedd drud fel Canol Llundain, ni fyddai'r eiddo cost uchel gyda rhenti uchel yn cael eu cynnwys a fyddai'n golygu y byddai cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu gostwng i lefelau mwy rhesymol. Byddai'n dileu'r effaith aflunio a achosir gan bresenoldeb llety cost uchel iawn i'w rentu pan gaiff cyfraddau budd-daliadau teg eu cyfrifo;
- pennu cyfraddau o fewn ardaloedd rhentu llai, fel bod rhenti a ddefnyddir yn cael eu teilwra'n well i'r farchnad a'r gymuned leol. Byddai hefyd angen i ni ystyried sut y gallem sicrhau bod sampl gynrychioliadol o renti o fewn yr ardaloedd llai hynny o hyd fel bod cyfraddau yn adlewyrchu rhent nodweddiadol;
- pennu cyfraddau yn unol â'r rhenti a delir gan deuluoedd sy'n gweithio yn yr ardal nad ydynt yn cael Budd-dal Tai. Mae gwaith ymchwil yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i edrych ar y rhenti a delir gan deuluoedd eraill sy'n gweithio ac sy'n ennill ychydig yn fwy na'r trothwy ar gyfer Budd-dal Tai;
- adolygu'r ffordd y caiff eiddo Budd-dal Tai ei ystyried wrth gyfrifo Lwfans Tai Lleol er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cynrychioli'r holl sector rhentu preifat lleol;
- grwpio ardaloedd lle ceir cyfraddau budd-daliadau tebyg gyda'i gilydd mewn cyfres genedlaethol o gyfraddau budd-daliadau wedi'u rhannu yn fandiau. Gan ddefnyddio'r dull bandio hwn, byddai'r un cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn berthnasol mewn ardaloedd lle mae'r rhenti yn debyg hyd yn oed os yw'r ardaloedd hynny mewn rhannau gwahanol o'r wlad. Gallai'r dull hwn weithio ochr yn ochr â'r system ddiwygiedig o ardaloedd budd-daliadau;
- pennu Ardaloedd Marchnad Rhentu Bras drwy ystyried dangosyddion gwahanol wrth bennu ffiniau marchnad fel y pellter y bydd gweithwyr sydd ar incwm isel yn ei deithio i'w gwaith. Fel arall, gallai ardaloedd fod yn seiliedig ar ffiniau gweinyddol presennol fel ardaloedd awdurdodau lleol a fyddai'n golygu mwy o sylwedd ac eglurder.

- 5.14 Byddai dulliau o'r fath yn golygu bod y system Budd-dal Tai yn decach ac yn fwy fforddiadwy ond byddai'n dal i sicrhau y gallai pobl ledled y wlad gael tai safonol mewn cymunedau cymysg. Fodd bynnag, byddai unrhyw deuluoedd y byddai'r newidiadau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn cael cymorth drwy drefniadau diogelu dros dro priodol. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar ba mor hir y byddem yn darparu'r diogelwch hwn a'r rheolau cymhwyster i'w gael.
- 5.15 Er mwyn cynorthwyo ein diwygiadau, comisiynwyd prosiect ymchwil i ddadansoddi, ar lefel isranbarthol, y dewisiadau tai a wnaed gan y teuluoedd eraill hynny sy'n gweithio nad ydynt yn cael Budd-dal Tai a'r costau y maent yn eu talu ar gyfer tai. Rydym yn disgwyl i'r ymchwil hon gyflwyno canfyddiadau cychwynnol yn 2010 i lywio ein hystyriaeth o ganfyddiadau'r ymgynghoriad.
- 5.16 Felly bydd ein diwygiadau yn sicrhau'r cydbwysedd cywir yn y ffordd y caiff lefelau Budd-dal Tai eu pennu. Bydd cwsmeriaid yn gallu manteisio ar dai safonol o hyd ond ni fydd lefelau'r budd-daliadau a gânt wedi'u haflunio mwyach gan lety cost uchel yn yr ardal. Bydd trethdalwyr hefyd yn well eu byd oherwydd yr arbedion a gyflwynir gan ein diwygiadau.
- Cwestiwn 5. Beth yw lefel uchaf y rhent y byddai'n rhesymol i drethdalwyr gynnig cymorth ar ei gyfer?
- Cwestiwn 6. Sut y dylem bennu cyfraddau budd-daliadau ar lefel briodol fel eu bod yn adlewyrchu dewisiadau tai teuluoedd eraill sy'n gweithio ond nad oes ganddynt hawl i gael budd-daliadau?
- Cwestiwn 7. Sut y gallem bennu cyfraddau budd-daliadau i adlewyrchu cyflwr y farchnad mewn ardaloedd gwahanol?
- Cwestiwn 8. A fyddai peidio â chynnwys y rhenti drutaf wrth bennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn arwain at lefelau tecach o fudd-daliadau?
- Cwestiwn 9. Sut y dylem bennu ardaloedd priodol ar gyfer Budd-dal Tai?

Materion sy'n berthnasol i Lundain

- 5.17 Drwy ein diwygiadau rydym yn cydnabod bod amrywiadau sylweddol mewn rhent yn bodoli ledled y wlad ond bod rhenti yn Llundain fel arfer yn llawer uwch nag mewn ardaloedd eraill. Ar ôl ystyried costau tai, mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartref sydd ar incwm isel yng Nghanol Llundain nag mewn unrhyw ardal arall yn y DU. Hefyd mae'n debygol y ceir amrywiaeth ehangach mewn rhenti yng Nghanol Llundain sy'n golygu ei bod yn llai tebygol y bydd cymhwyso cyfres genedlaethol o reolau, gan alinio cyfraddau budd-daliadau i ganol y farchnad, yn rhoi lefel deg o fynediad i'r farchnad rentu.

5.18 Nid ydym am i'r amgylchiadau sy'n bodoli yn Llundain ddylanwadu ar reolau Budd-dal Tai ledled y DU ond ni allwn anwybyddu'r problemau yn Llundain. Rydym am glywed eich safbwyntiau ar sut y gallwn fynd i'r afael â rhenti uchel a chyfraddau budd-daliadau yn Llundain drwy gyflwyno bandiau neu gapio cyfraddau ar lefel sy'n fforddiadwy i deuluoedd eraill sy'n gweithio nad oes ganddynt hawl i gael Budd-dal Tai.

Meini prawf maint tecach

5.19 O dan y rheolau presennol ar gyfer Lwfans Tai Lleol, caiff y budd-dal ei gyfrifo fel y gall y cwsmer fforddi eiddo â nifer benodol o ystafelloedd gwely yn seiliedig ar aelodau'r teulu. Mae'r trefniadau hyn yn golygu y ceir ystafell wely ar wahân i bob oedolyn, neu gwpwl sy'n oedolion, ac i bob plentyn 16 oed neu hŷn. Tybir y gall plant iau rannu ystafell wely, yn amodol ar gyfyngiadau penodol. Mae'r meini prawf hyn sy'n ymwneud â maint yn wahanol i lawer o'r safonau a ddefnyddir gan gynghorau lleol a chymdeithasau tai i ddyrannu tai cymdeithasol.

5.20 Ar yr un pryd nid yw'r meini prawf sy'n ymwneud â maint yn ystyried y pwysau ychwanegol a wynebir gan rai teuluoedd – fel anghenion pobl anabl i gael lle i ofalwr aros dros nos, neu anghenion rheini unigol sy'n rhannu gofalaeth am blant.

5.21 Yn yr hinsawdd gyllidol sydd ohoni mae'n bwysig osgoi cynnydd mewn pwysau oherwydd costau. Fodd bynnag, hoffem ymgynghori ar p'un a oes newidiadau y gellir eu gwneud i'r meini prawf sy'n ymwneud â maint na fyddai'n cynyddu costau cyffredinol ond a fyddai'n fwy priodol i ddiwallu anghenion teuluoedd.

5.22 Er enghraifft hoffem glywed safbwyntiau ar p'un a fyddai'n deg codi'r oedran y bydd unigolyn ifanc yn gymwys i gael ystafell wely ar wahân o 16 i 18 yn unol â'r meini prawf a ddefnyddir yn ehangach mewn sectorau eraill, a defnyddio'r arbedion i roi mwy o le i bobl anabl neu rieni sy'n rhannu gofalaeth am blant.

Cwestiwn 10. A ddylid addasu'r meini prawf sy'n ymwneud â maint ar gyfer Lwfans Tai Lleol?

Cwestiwn 11. A ddylid ehangu Budd-dal Tai i ddarparu ar gyfer ystafell wely ychwanegol pan welir bod angen ystafell ar gyfer gofalwr dibreswyl?

Cwestiwn 12. A ddylid darparu ar gyfer ystafell wely ychwanegol yn y meini prawf sy'n ymwneud â maint er mwyn helpu rhieni sydd angen gofalu am blant dibreswyl os oes tystiolaeth y gall teuluoedd sy'n gweithio wneud hynny?

Cymunedau cymysg gyda thai safonol

- 6.1 Un o amcanion sylfaenol y system Budd-dal Tai yw y dylai alluogi pobl i fforddio tai rhent o ansawdd safonol. Ond mae pryder, mewn rhai achosion, y gall fod yn rhoi cymhorthdal i denantiaid fyw mewn llety o ansawdd gwael nad yw'n cyrraedd safonau modern o ran effeithlonrwydd ynni neu ôl-troed carbon. Mae hyn yn wael i denantiaid, gan ei fod yn golygu eu bod yn aros mewn tloedi tanwydd ac nid yw'n cynnig gwerth am arian i drethdalwyr. Rydym felly'n awyddus i archwilio opsiynau a allai wella safon llety sy'n gartref i bobl ar Fudd-dal Tai.
- 6.2 Mae'r Llywodraeth wedi pennu targed i adeiladu 240,000 o gartrefi newydd y flwyddyn erbyn 2016. Mae'n rhaid adeiladu'r twf hwn gan ddilyn egwyddorion effeithlonrwydd ynni ac ôl troed carbon isel gan ein bod yn bwriadu lleihau allyriadau CO₂ 80 y cant o lefelau 1990 erbyn 2050. Yn Lloegr, mae'r Llywodraeth yn ymroddedig i fod y cyntaf ledled y byd i gyflwyno gorchymyn cyfreithiol bod yn rhaid i gartrefi newydd a gaiff eu hadeiladu fod yn ddi-garbon, a gweithredu safonau effeithlonrwydd ynni newydd llym, o 2016.
- 6.3 Bydd y Llywodraeth hefyd yn ymgynghori ar newidiadau i'r Cod Cartrefi Cynaliadwy. Mae'r Cod yn cwmpasu naw agwedd wahanol ar gynaliadwyedd. Safon wirfoddol, nid gorfodol, ydyw i adeiladwyr yn y sector preifat, ond mae'n ofynnol gan yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau fel amod ar gyfer cael arian ar gyfer y Rhaglen Tai Fforddiadwy Cenedlaethol a gall fod yn rhan o amodau cynllunio lleol.
- 6.4 Mae mynediad i dai fforddiadwy o safon yn hanfodol er mwyn i bobl allu cyflawni eu potensial llawn. Mae'r sector tai rhentu preifat yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu dewisiadau tai hyblyg i bobl na allant fforddio prynu eu cartrefi eu hunain, neu sy'n dewis peidio â gwneud hynny. Mae ymateb y Llywodraeth i adolygiad Julie Rugg o'r sector rhentu preifat⁶ yn egluro ei hymroddiad i hyrwyddo sector rhentu preifat o safon sy'n ffynnu ac sy'n cynnig dewis tai hyblyg a fforddiadwy. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cwblhau adolygiad o'r sector tai rhentu preifat yn yr Alban.⁷
- 6.5 Bydd cynyddu'r cyflenwad tai yn helpu i gyfyngu ar dwf rhenti a phrisiau tai gan roi mwy o gyfleoedd i fwy o bobl gael cartref o safon a mwy o ddewis o ran ble maent yn byw. Ond rydym yn disgwyl i dai yn y dyfodol hefyd fod yn fwy effeithlon o ran ynni a chael ôl troed carbon is. Ein nod yw bod Budd-dal Tai yn cefnogi'r weledigaeth hon.

⁶ Rugg, Julie a Rhodes, David (2008) *The private rented sector: its contribution and potential*, Caerfrog: Y Ganolfan ar gyfer Polisi Tai, Prifysgol Caerfrog

⁷ *Review of the Private Rented Sector*, Llywodraeth yr Alban Mawrth 2009

- 6.6 Rydym yn teimlo y gellir gwneud mwy i gydweithio gyda landlordiaid i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni eu heiddo. Y sector rhentu preifat yw'r sector tai mwyaf aneffeithlon o ran ynni. Gallem, er enghraifft, ddatblygu pecyn o fesurau sy'n cynnig cymhellion cryfach i landlordiaid wneud gwelliannau graddol i'w heiddo. Gallai pecyn o'r fath gydbwyso cynnydd yn yr amodau a gyflwynir gydag ymgyrch i sicrhau bod landlordiaid yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sy'n bodoli i'w helpu i wella effeithlonrwydd ynni eu heiddo, fel y Targed Lleihau Allyriadau Carbon a'r Lwfans Arbed Ynni i Landlordiaid, a'u bod yn cael help i fanteisio ar y cymorth hwnnw.
- 6.7 Hoffem ystyried p'un a ddylid talu Budd-dal Tai ar yr amod bod tai yn cyrraedd safonau penodol a ddiffinnir o ran ansawdd, effeithlonrwydd ynni ac ôl troed carbon. Ni fyddai Budd-dal Tai yn daladwy ar eiddo nad yw'n cyrraedd safonau penodol.
- 6.8 Mae talu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i gwsmeriaid yn elfen bwysig o'n diwygiadau i'r system. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi cyfrifoldeb i gwsmeriaid ymdrin â thaliadau budd-daliadau, a thalu eu rhent, y bydd ei angen arnynt pan fyddant yn symud i mewn i waith. Mae llawer o gwsmeriaid bellach yn llwyddo i weithredu cyfrifon banc – am y tro cyntaf mewn sawl achos – o ganlyniad i'r cyfrifoldeb hwn.
- 6.9 Fodd bynnag, mae rhai rhanddeiliaid wedi lleisio pryderon ynghylch y broses o dalu Lwfans Tai Lleol yn uniongyrchol i gwsmeriaid a gwyddom, mewn rhai achosion, nad yw'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu gweithredu'n ddigon da. Dyma pam ein bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella'r canllawiau sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau ac i wella safon a chysondeb y penderfyniadau eu hunain.
- 6.10 Ond hoffem hefyd ystyried rhoi elfen o ddewis nôl i gwsmeriaid a fyddai'n eu galluogi i benderfynu bod eu budd-dal yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r landlord. Gallem ystyried ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid wella safon neu effeithlonrwydd ynni eu heiddo yn gyfnewid am gael taliadau uniongyrchol.
- 6.11 Gallai'r safonau gynnwys Cyfraddau'r Dystysgrif Perfformiad Ynni, y Systemau Mesur Iechyd a Diogelwch Tai, sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr, neu'r Safon Atgyweirio – safon ar gyfer atgyweirio llety rhentu preifat yn yr Alban.
- Cwestiwn 13. A ddylai hawl i gael Budd-dal Tai fod yn amodol ar eiddo sy'n cyrraedd safonau penodol?
- Cwestiwn 14. A ddylai taliad uniongyrchol i'r landlord fod yn gysylltiedig ag eiddo sy'n cyrraedd ansawdd neu safon ynni penodol?

Asiantaethau gosod tai lleol

6.12 Mae'r sector rhentu preifat yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ddarparu tai fforddiadwy i bobl ar incwm isel. Mae llawer o awdurdodau lleol yn gwneud defnydd llawn o'r sector rhentu preifat i roi opsiynau tai i bobl y mae angen tai arnynt. Mae'r Llywodraeth yn argymhell y dylai awdurdodau lleol sefydlu asiantaethau gosod tai lleol i ddatblygu dull mwy cydgysylltiedig o sicrhau tenantiaethau yn y sector rhentu preifat i deuluoedd ar incwm isel. Hoffem hefyd weld a allai Budd-dal Tai chwarae rhan yng ngweithrediad yr asiantaethau hyn.

Cwestiwn 15. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar sut y gall Budd-dal Tai gyfrannu at y broses o wneud gwelliannau i safon tai yn y sector preifat i denantiaid.

Diwygiadau i lety dros dro

6.13 Mae'r broses o ddarparu Budd-dal Tai i gwsmeriaid sy'n byw mewn llety dros dro wedi dod yn gynyddol ddrud er gwaethaf gostyngiadau diweddar yn nifer y teuluoedd sy'n byw mewn llety dros dro. Mae rhenti mor uchel yn rhwystro cwsmeriaid rhag cael gwaith ac yn golygu y gall rhai teuluoedd barhau i fod yn ddi-waith, a byw mewn tai dros dro, am flynyddoedd.

6.14 Rydym hefyd yn pryderu bod rhai o'r lefelau uchaf o Fudd-dal Tai yn cael eu talu i'r rheini sy'n cael eu gosod mewn llety dros dro gan eu cyngor lleol. Rydym am ystyried ffyrdd pellach o ddarparu llety dros dro cost isel a sicrhau lle y gall cynghorau negodi rhenti ar gyfer llety dros dro yn y sector rhentu preifat sy'n is na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol ar gyfer yr ardal, y gellir trosglwyddo'r costau is hyn i denantiaid a threthdalwyr.

6.15 Mae'r Llywodraeth yn benderfynol o newid rheolau cymorthdaliadau i adlewyrchu'r gyfradd gyfredol ar gyfer eiddo yn yr ardal yn well ac annog awdurdodau lleol i godi rhenti mwy rhesymol ar denantiaid.

Y sector rhentu cymdeithasol

6.16 Mae'r Llywodraeth hefyd yn awyddus i helpu'r sector tai rhentu cymdeithasol i chwarae mwy o ran i helpu denantiaid i symud i mewn i waith. Er gwaethaf manteision rhenti sefydlog, fforddiadwy sy'n nodwedd o fyw yn y sector cymdeithasol, mae gormod o denantiaid yn wynebu anfanteision niferus a all olygu ei bod yn anoddach iddynt symud i mewn i waith.

- 6.17 Rydym yn mynd i'r afael â'r problemau hyn drwy gydweithio ag awdurdodau lleol a landlordiaid yn y sector cymdeithasol. Mae'r Enhanced Housing Options Trailblazers, sy'n gweithredu mewn 90 o awdurdodau lleol yn Lloegr, yn darparu gwasanaethau tai sy'n gysylltiedig â chynghor am gyflogaeth a hyfforddiant. Dylai ehangu Gosodiadau ar Sail Dewis ei gwneud yn haws i denantiaid symud o un rhan o'r wlad i ran arall yn enwedig os ydynt yn derbyn cynnig am waith. Bydd ein menter Total Place hefyd yn profi dulliau newydd o ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a gwella gwasanaethau mewn ardaloedd lleol.
- 6.18 Ond rydym am weld beth arall y gall Llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol ei wneud i helpu i ehangu dewis a helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

Tuag at gymorth tai y dyfodol

- 7.1 Bydd y diwygiadau a nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn yn sicrhau mai'r cwsmeriaid sy'n ganolbwynt i'r gwasanaeth a gynigiwn yn enwedig o ran eu helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Gallai'r diwygiadau hyn hefyd gynrychioli cam hanfodol yn y broses o gyflwyno Budd-dal Tai mewn ffordd a fydd yn ein galluogi i integreiddio budd-daliadau yn well pan, neu os, bydd yr amser yn gywir.
- 7.2 Mae Budd-dal Tai yn unigryw ymysg y budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm oherwydd y caiff ei dalu i bob grŵp cleientiaid ac i bobl sydd mewn gwaith yn ogystal â phobl sydd allan o waith. Mae hyn yn golygu y bydd pob diwygiad sylweddol i'r system les yn cael rhywfaint o effaith o leiaf ar Fudd-dal Tai. Yn bwysicach, gallai methiant i ystyried effeithiau o'r fath rwystro amcanion diwygiadau lles ehangach rhag cael eu cyflawni'n llawn.
- 7.3 Gan ystyried hyn, un o'r agweddau pwysig ar ddiwygio Budd-dal Tai yn ddiweddar oedd cysoni'r rheolau gyda budd-daliadau neu gredydau cysylltiedig. Fodd bynnag mae angen i ni wneud llawer mwy i wneud pethau'n haws ac yn symlach i denantiaid, ac i gefnogi gwaith yn well. Ein blaenoriaeth ar gyfer y tymor canolig fydd cysoni cymorth tai yn fwy gyda budd-daliadau a threthi a'i gysylltu â'r diwygiadau ehangach i'r system les yn cynnwys datblygiadau fel budd-dal unigol i bobl o oedran gweithio. Bydd hyn yn ein galluogi i ddarparu cymorth mwy integredig, mynd i'r afael â chyfraddau codi budd-daliadau uchel a chyfuno darpariaeth cymorth tai gyda darpariaeth les arall. Bydd angen ystyried amrywiaeth o opsiynau yn cynnwys:
- Cyfuno Budd-dal Tai gyda budd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm;
 - Creu math o gredyd treth tai;
 - Cadw Budd-dal Tai diwygiedig fel budd-dal costau ychwanegol ar wahân.
- 7.4 Byddai angen cymryd nifer o gamau pwysig er mwyn ailstrwythuro Budd-dal Tai yn yr hirdymor. Gallai'r rhain gynnwys:
- cynllunio dull mwy unffurf o gyflwyno cyfraddau budd-daliadau er y bydd angen bodloni amodau pwysig cyn y gallwn ystyried cyflwyno'r diwygiadau hyn yn y sector rhentu cymdeithasol;
 - helpu mwy o gwsmeriaid i gael eu budd-dal yn uniongyrchol, yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i'w landlord. Eto, bydd angen bodloni amodau cyn y gallem gychwyn ar y diwygiadau hyn yn y sector rhentu cymdeithasol;
 - ceisio integreiddio'r gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol ac asiantaethau llywodraeth ganolog yn well, gan adeiladu ar y prosiect I Mewn ac Allan o Waith;

- cysoni'r cyfnod cofnodi ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau yn fwy gyda darpariaeth arall; a
- cysoni cyfraddau'r budd-daliadau a godir gan gwsmeriaid sydd mewn gwaith fel eu bod yn cael eu hystyried yn yr un modd ar draws budd-daliadau a chredydau treth.

- 7.5 Rydym eisoes wedi dechrau gyda'n diwygiadau i Lwfans Tai Lleol. Mae elfen cyfradd sefydlog y Lwfans Tai Lleol yn sicrhau bod cwsmeriaid gydag amgylchiadau tebyg, sy'n byw yn yr un ardal, yn cael cyfraddau tebyg o fudd-daliadau. Byddai ein hawgrymiadau ar gyfer diwygiadau, a allai symleiddio ffiniau daearyddol ardaloedd budd-daliadau a'u bandio gyda'i gilydd, yn arwain at lawer yn llai o gyfraddau Lwfans Tai Lleol yn genedlaethol. Byddai hyn yn gam pwysig tuag at bennu cyfraddau rhesymol fel rhan o system fwy integredig.
- 7.6 Er ein bod yn ymroddedig i ddilyn ein dyheadau hirdymor, rydym yn cydnabod y bydd angen ystyried yn ofalus y gwahaniaethau sylweddol mewn lefelau rhent ar draws ardaloedd a rhwng mathau o ddaliadaethau. Yn benodol, rydym yn cydnabod nad yw grymoedd y farchnad yn gweithredu yn yr un modd yn y sector rhentu cymdeithasol o gymharu â'r sector rhentu preifat. Rydym hefyd am gynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy, ynni effeithlon yn y sector cymdeithasol a chredwn y byddai diwygiadau i Fudd-dal Tai o gymorth i'r gwaith hwn. Ond mae ein hymrwymiad yn nodi na fyddwn yn cyflwyno'r diwygiadau hyn hyd nes y bydd yr amser yn iawn ac y bydd amodau pwysig wedi'u bodloni.
- 7.7 Telir y Lwfans Tai Lleol hefyd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn uniongyrchol i gwsmeriaid a byddai'n rhaid talu unrhyw ddarpariaeth integredig mewn modd tebyg. Ond rydym yn cydnabod y byddai hwn yn newid sylweddol i gwsmeriaid yn y sector rhentu cymdeithasol. Dyna pam ein bod wedi cytuno i beidio â bwrw ymlaen â chynlluniau i ehangu'r egwyddor o daliadau uniongyrchol i'r sector rhentu cymdeithasol.
- 7.8 Nodwyd gennym hefyd yn yr ymgynghoriad hwn sut rydym wedi cyflwyno diwygiadau sy'n integreiddio, i raddau llawer helaethach, y gwasanaethau a ddarperir gan yr asiantaethau sy'n rhoi cymorth i gwsmeriaid. Mae llwyddiant y prosiect I Mewn ac Allan o Waith yn dangos ein hymroddiad i anelu at integreiddio gwasanaethau yn fwy ond mae angen i ni wneud mwy i ddwyn ynghyd reolau budd-daliadau gwahanol, asiantaethau gwahanol a phrosesau gwahanol er mwyn sicrhau bod y cwsmer yn ganolbwynt i'r gwasanaethau a ddarparwn.
- 7.9 Dyma pam rydym yn cynnig cysoni'n fwy y rheolau sy'n llywodraethu pa mor aml y mae'n rhaid i gwsmeriaid roi gwybod i'w hawdurdod lleol am newidiadau yn eu hamgylchiadau. Mae'r rheolau presennol yn gymhleth ac yn rhwystro cwsmeriaid rhag parhau i weithio. Ond, yr un mor bwysig, maen yn anghyson â'r rheolau cofnodi newidiadau ar gyfer budd-daliadau eraill. Os ydym am ddechrau paratoi'r system ar gyfer y camau nesaf yn y broses o ddiwygio Budd-dal Tai, mae angen i ni ystyried sut y gallwn ddod â'r rheolau hyn yn llawer agosach at ei gilydd.

- 7.10 Bydd diwygiadau strwythurol yn ail-leoli'r system Budd-dal Tai, gan wneud mwy i helpu cwsmeriaid i mewn i waith a byddant yn gwneud y system yn decach ac yn fwy fforddiadwy. Byddant yn ein helpu i symud tuag at ein dyhead hirdymor o integreiddio Budd-dal Tai yn well i weddill y system trethi a budd-daliadau.

Ein hymrwymiad i wrando

Diben yr ymgynghoriad

8.1 Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau i lywio'r gwaith o ddiwygio Budd-dal Tai. Hoffem glywed gan bawb sydd â diddordeb, yn cynnwys tenantiaid, landlordiaid, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, a gweithwyr cynghori. Mae'r ymgynghoriad yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban. Bydd unrhyw faterion a allai effeithio ar weithrediad y system Budd-dal Tai ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon yn destun trafodaethau ar wahân. Bu'r Adran Gwaith a Phensiynau yn trafod gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn ystod y gwaith o ddatblygu'r ddogfen ymgynghori hon. Bydd ein cynigion yn sicrhau bod Budd-dal Tai mewn sefyllfa well i helpu pobl i mewn i waith, ei fod yn decach, yn cael ei ddarparu'n fwy effeithlon ac yn cynnig gwerth da am arian i'r trethdalwr.

Hyd yr ymgynghoriad

8.2 Mae'r cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 15fed Rhagfyr 2009 ac yn para tan 22ain Chwefror 2010. Mae hyn yn fyrrach na'r amserlen a argymhellwyd yng Nghod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori sy'n awgrymu y dylai ymgynghoriadau bara am 12 wythnos neu fwy fel arfer. Fodd bynnag, rydym wedi ymgynghori'n anffurfiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid ar y broses o ddiwygio Budd-dal Tai ers 2008 ac rydym wedi sefydlu dulliau ychwanegol i bobl allu lleisio eu barn. Cwtogwyd y cyfnod ymgynghori ffurfiol i 10 wythnos er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau hyddysg ar y broses o ddiwygio Budd-dal Tai i gyd-fynd â'r cylch gwneud penderfyniadau ar y Gyllideb.

Trefniadau ymgynghori

8.3 Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad i:

Housing Benefit Consultation Team
 Department for Work and Pensions
 1st Floor
 Caxton House
 Tothill Street
 London
 SW1H 9NA
 E-bost: hb.evidencereview@dwp.gsi.gov.uk

- 8.4 Sicrhewch fod eich ymateb yn ein cyrraedd erbyn 22ain Chwefror 2010. Byddwn yn cydnabod pob ymateb. Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli, a sut y cafwyd barn yr aelodau.
- 8.5 Gellir darparu copiâu o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau amgen os bydd angen. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â ni yn y cyfeiriad uchod.
- 8.6 Rydym wedi anfon y ddogfen ymgynghori hon at nifer fawr o bobl a sefydliadau sydd eisoes wedi bod yn ymwneud â'r gwaith hwn neu sydd wedi dangos diddordeb ynddo. Rhannwch y ddogfen hon ag unrhyw un y credwch y bydd eisieu ymwneud â'r ymgynghoriad, neu dywedwch wrthym amdanynt.
- 8.7 Byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn adroddiad yn adran ymgynghoriadau ein gwefan <http://www.dwp.gov.uk/consultations/>. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a'r camau y byddwn yn eu cymryd o ganlyniad i'r ymatebion.

Rhyddid gwybodaeth

- 8.8 Gallai fod angen i ni drosglwyddo'r wybodaeth a anfonwch atom i gydweithwyr yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ei chyhoeddi mewn crynodeb o ymatebion a gafwyd, a chyfeirio ati yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddir.
- 8.9 Gallai unrhyw wybodaeth yn eich ymateb gael ei chyhoeddi neu ei datgelu os gwneir cais amdani o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Drwy roi gwybodaeth bersonol at ddibenion yr ymgynghoriad cyhoeddus, deëllir eich bod yn cytuno i'w datgelu a'i chyhoeddi. Os nad ydych yn cytuno, dylech gyfyngu ar unrhyw wybodaeth bersonol a roddir, neu ei dileu'n gyfan gwbl. Os hoffech i'r wybodaeth yn eich ymateb i'r ymgynghoriad gael ei chadw'n gyfrinachol, dylech egluro pam fel rhan o'ch ymateb, er na allwn sicrhau y gwnawn hyn.

Meini prawf yr ymgynghoriad

- 8.10 Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â Chod Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori. Y saith maen prawf ymgynghori yw:
 - Pryd y dylid Ymgynghori. Dylid cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar adeg pan fo modd dylanwadu ar y canlyniad.
 - Hyd ymarferion ymgynghori. Fel arfer, dylai ymgynghoriadau bara o leiaf 12 wythnos gan ystyried amserlenni hwy lle y bo'n ymarferol ac yn synhwyrol.
 - Eglurder o ran cwmpas ac effaith. Dylai dogfennau'r ymgynghoriad fod yn glir ynghylch y broses ymgynghori, yr hyn a gynigir, faint o ddylanwad y gellid ei gael a chostau a buddiannau disgwyliedig y cynigion.

- Hygyrchedd ymarferion ymgynghori. Dylai'r ymgynghoriadau fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriedir iddynt eu cyrraedd, a dylent gael eu cynllunio iddynt.
- Y baich ymgynghori. Dylid sicrhau bod ymgynghoriadau mor ddidrafferth â phosibl er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac er mwyn i'r ymgynghoreion gyfrannu.
- Ymatebolrwydd ymarferion ymgynghori. Dylai'r ymatebion i'r ymgynghoriad gael eu dadansoddi'n ofalus a dylid rhoi adborth clir i'r rhai sydd wedi cyfrannu yn dilyn yr ymgynghoriad.
- Gallu i ymgynghori. Dylai'r swyddogion sy'n cynnal ymarferion ymgynghori geisio arweiniad ar sut i gynnal ymarfer ymgynghori effeithiol a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt o'r profiad.

Adborth ar yr ymgynghoriad hwn

8.11 Rydym yn gwerthfawrogi adborth ar ba mor dda yr ydym yn ymgynghori. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses o gynnal yr ymgynghoriad hwn, er enghraifft, sut y gellid ei wella, ond nid ar y materion a godir, cysylltwch â'n Cydlynnydd Ymgynghoriadau:

Roger Pugh
DWP Consultation Coordinator
1st Floor, Crown House
2, Ferensway, Hull HU2 8NF
01482 609571
roger.pugh@dwp.gsi.gov.uk

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Rydym yn awyddus i gael eich barn ar y materion a drafodwyd yn yr ymgynghoriad hwn. Dyma restr o gwestiynau yr hoffem gael eich barn arnynt yn benodol.

- Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno y bydd Taliad Symud i mewn i Waith yn helpu i hwyluso'r cyfnod o symud i mewn i waith?
- Cwestiwn 2. Beth fyddai prif nodweddion cynllun o'r fath i sicrhau'r effaith fwyaf a'r risg leiaf?
- Cwestiwn 3. A ddylem gyflwyno dyfarniadau Budd-dal Tai cyfnod sefydlog i'r cwsmeriaid hynny sydd mewn gwaith?
- Cwestiwn 4. Beth fyddai prif nodweddion cynllun o'r fath i sicrhau'r effaith fwyaf ynghyd ag osgoi unrhyw gymhellion gwrthnysig a lleihau'r risg i'r rheini y mae eu hincwm yn gostwng yn sylweddol?
- Cwestiwn 5. Beth yw lefel uchaf y rhent y byddai'n rhesymol i drethdalwyr gynnig cymorth ar ei gyfer?
- Cwestiwn 6. Sut y dylem bennu cyfraddau budd-daliadau ar lefel briodol fel eu bod yn adlewyrchu dewisiadau tai teuluoedd eraill sy'n gweithio ond nad oes ganddynt hawl i gael budd-daliadau?
- Cwestiwn 7. Sut y gallem bennu cyfraddau budd-daliadau i adlewyrchu cyflwr y farchnad mewn ardaloedd gwahanol?
- Cwestiwn 8. A fyddai peidio â chynnwys y rhenti drutaf wrth bennu cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn arwain at lefelau tecach o fudd-daliadau?
- Cwestiwn 9. Sut y dylem bennu ardaloedd priodol ar gyfer Budd-dal Tai?
- Cwestiwn 10. A ddylid addasu'r meini prawf sy'n ymwneud â maint ar gyfer Lwfans Tai Lleol?
- Cwestiwn 11. A ddylid ehangu Budd-dal Tai i ddarparu ar gyfer ystafell wely ychwanegol pan welir bod angen ystafell ar gyfer gofalwr dibreswyl?
- Cwestiwn 12. A ddylid darparu ar gyfer ystafell wely ychwanegol yn y meini prawf sy'n ymwneud â maint er mwyn helpu rhieni sydd angen gofalu am blant dibreswyl os oes tystiolaeth y gall teuluoedd sy'n gweithio wneud hynny?
- Cwestiwn 13. A ddylai hawl i gael Budd-dal Tai fod yn amodol ar eiddo sy'n cyrraedd safonau penodol?
- Cwestiwn 14. A ddylai taliad uniongyrchol i'r landlord fod yn gysylltiedig ag eiddo sy'n cyrraedd ansawdd neu safon ynni penodol?
- Cwestiwn 15. Byddem yn croesawu safbwyntiau ar sut y gall Budd-dal Tai gyfrannu at y broses o wneud gwelliannau i safon tai yn y sector preifat i denantiaid.

**Mae'r cyhoeddiad hwn a fersiwn Saesneg o'r
Crynodeb Gweithredol ar gael ar-lein yn:**

www.dwp.gov.uk/supportingpeopleintowork

Neu ar gais o:

**Housing Benefit Review
Consultation Team**

1st Floor

Caxton House

Tothill Street

London SW1H 9NA

Ffôn: 020 7449 5340

**E-bost: [hb.evidencereview@dwp.gsi.
gov.uk](mailto:hb.evidencereview@dwp.gsi.gov.uk)**

Gellir darparu copïau o'r cyhoeddiad hwn mewn
fformatau amgen os bydd angen.

ISBN: 978-1-84763-785-7

© Hawlfraint y Goron 2009

Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Rhagfyr 2009

www.dwp.gov.uk